Gwasanaethu Plant yn y Dyfodol Digidol

Cwestiynau

1. A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i Blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i Blant?

2. A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?

3. A allwch chi feddwl am randdalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?

4. A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch safbwyntiau am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?

5. Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i Blant a ddarparir gan S4C?

6. A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?

7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr Ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i Blant?

Ymatebion

Enw Auldith Nicol

C1 Ydw. Mae rhaglenni da iawn ar S4C ar gyfer plant bob oedran ond nid yw'r amser yn gyfleus bob tro i'w gwylio. Er eu bod ni yn siarad Cymraeg a'r plant mae nhw yn gwylio rhaglenni plant yn Saesneg, mae nhw ar gael bob amser o'r dydd. Pe bai rhaglenni ar gael i'r plant mwy aml ar S4C, neu sianel ar gyfer plant yn unig byddai'r plant yn gallu mwynhau mwy o rhaglenni yn yr iaith Gymraeg a dim gwylio gymaint o rhai Saesneg.

C2 Nac ydw

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Amrywiaeth o rhaglenni yn cynnwys rhai i blant a teuluoedd sydd yn dysgu Cymraeg.

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Catherine Owen

C1 Ydw. Rwy'n cytuno'n llwyr a'ch resymau.

C2 Ydw

C3 Dim sylw

C4 Ar y penwythnosau ac ar ôl ysgol (4-8pm)

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Eilir Owen

C1 Ydw. Mae darpariaeth y rhaglenni Saesneg ar sianeli digidol yn eang, yn amrywiol ac ar gael drwy gydol y dydd. Rwyf wedi teimlo ers peth amser fod angen gwasanaeth tebyg ar S4C.

Mae'r rhaglenni a gynigir i blant oed meithrin, ar y cyfan, yn dda ac fe fyddwn yn falch iawn o weld y gwasanaeth hwn yn cael ei ymestyn. Ond, os am ddenu gwylwyr oed cynradd ac yn eu harddegau i wylio rhaglenni Cymraeg, byddai'n rhaid gwella ansawdd yr arlwy a gynigir iddynt yn ogystal â dod o hyd i gyflwynwyr gwell i'w cyflwyno.

Rhaid hefyd gwella'r dull o hysbysebu rhaglenni. Pan oeddwn yn dysgu mewn ysgol Gymraeg lle'r oedd y nifer helaeth o blant o gartrefi di-Gymraeg, sylweddolais mai ychydig iawn ohonynt oedd yn gwylio S4C. Yr unig bryd roeddent yn gwylio'r rhaglenni oedd pan fu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan ynddynt. Nid oedd y plant yn ddigon ymwybodol o'r rhaglenni oedd ar gael iddynt a rhaid i S4C dargedu ac ymweld â phob un o ysgolion Cymraeg Cymru er mwyn sicrhau bod y plant yn teimlo'n rhan o'r gwasanaeth ac felly'n dod i'r arfer â gwylio'r sianel newydd.

C2 Ydw

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Mae'r rhaglenni a gynigir ar S4C i blant oed meithrin, ar y cyfan, yn dda.

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Dafydd Owen

C1 Ydw. Mae fy mhlant nawr o'r oedran (7 a 9) maent yn medru defnyddio teledu digidol a dewis beth i wylio. Yn bresennol nid yw'r dewis sydd ar gael yn gynhwysfawr o ran dewis nac amser. O'r herwydd maent yn gwylio rhaglenni Saesneg/Americanaidd. Mae effaith gwylio'r rhaglenni yma i'w glywed yn glir yn y iaith maent yn ei defnyddio o dydd i ddydd ac wrth chwarae. O ganlyniad maent hefyd yn llai tebyg o ddefnyddio idiomau a chystrawen Cymraeg allen nhw ddysgu trwy wylio hynny o'r Gymraeg sydd ar y teledu, neu yn y llyfrau maent yn ei darllen.

C2 Nac ydw. Nid ydw i'n credu bod y farchnad Cymraeg yn ddigon gwerthfawr i ddenu darlledwyr trydydd parti i ddarparu'r fath wasanaeth.

C3 Yr undebau amaethyddol, mae llawer o wragedd a mamau naill ai'n gweithio ar y fferm, neu'n ffermwyr llawn amser ei hunain. Mae cefn gwlad yn asgwrn cefn i'r Gymraeg fel rhan o'r gymdeithas.

C4 Mae'r oriau i'w gweld yn deg, a baswn i'n cytuno â'r dehongliad o anghenion plant meithrin, plant hyn a phlant yn eu harddegau.

C5 Iaith gywir mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'n bwysig bod y Gymraeg i'w gweld yn rhan o fywyd pob dydd. Mae plant o'r oedran hyn hefyd yn dysgu trosglwyddo syniadau a chysyniadau, ac yn chwilio am eiriau ac idiomau i fynegi'r hyn maent yn ceisio ei ddweud. Yn bresennol, maent yn llawer mwy tebyg o ddarganfod geiriau sydd eu hangen arnynt wrth wrando ar deledu Saesneg. Byddai darpariaeth mwy eang, mewn amser a dewis, trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhoi mwy o gyfle i blant ddarganfod a defnyddio geirio (phrases) Cymraeg, yn enwedig os ydy ei ffrindiau yn gwylio'r un rhaglenni.

C6 Opsiwn 1 byddai 'newis i. Mae'r diffyg gwasanaeth Cymraeg ar ôl ysgol yn anfantais, gan fod ein plant yn dueddol o wylio teledu am gyfnod yn ystod y prynhawn, ond rwy'n derbyn bod darlledu trafodaeth o'r Cynulliad hefyd yn elfen gwerthfawr o wasanaeth S4C.

C7 Y prif reswm rwy'n cefnogi'r cynnig am fwy o raglenni Cymraeg yw'r effaith mae rhaglenni Saesneg yn cael ar ein plant. Sa' i'n credu eu bod yn gwylio teledu yn ormodol, ond mae'r hyn maent yn ei wylio, yn enwedig o'r rhaglenni 'tiny pop' (sianel 620) a'u math yn cael effaith gref ar y iaith maent yn ei ddefnyddio. Nid oes yna ddewis o raglenni Cymraeg pryd maent yn dueddol o wylio teledu, ac mae angen hynny er mwyn hybu safon eu Cymraeg.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Manon Haf Owen

C1 Ydw. Man fy mhlant wedi bod wrth eu boddau yn edrych ar raglenni Planed Plant a Phlaned Plant Bach ers blynyddoedd bellach gan eu bod yn 8 a 5 oed. Ond yn anffodus ers iddynt fod yn cychwyn y Dosbarth Meithrin maent wedi bod yn methu gwylio Planed Plant Bach gan ei fod yn cael ei ddarlledu yn ystod amser ysgol yn unig. Rwyf yn gweld hyn yn wirion bost gan mai canran fechan o'r plant sydd wrth eu boddau â'r rhaglenni a'r cymeriadau sydd adref yn ystod yr amser y darlledir y rhaglenni. Teimlaf felly eu bod wedi colled fawr, adegau eu penblwyddi doedd dim pwrpas anfon cyfarchion gan na fyddent adref i'w gweld beth bynnag.

Erbyn hyn mae fy merch ieuengaf yn dal i fwynhau gwylio Planed Plant Bach yn ystod y gwyliau, a'r fideos a'r DVDs o'r rhaglenni (ac i ddweud y gwir mae fy merch hynaf yn dal i'w gwylio yn slei bach hefyd!). Buom ym Mhentre Bach yn ddiweddar ac roedd y ddwy yn teimlo ar ben y byd yno. Mae y lle yn wych, biti fod rhaid prynu'r DVD i gael gweld y rhaglenni. Roedd yn rhaid recordio priodas Jac y Jwc a Jini gan ein bod wedi cael gwahoddiad drwy'r post gan S4C er ei bod ar amser hollol anghyfleus, amser cinio dydd Gwener cyn i'r ysgol gau am wyliau, pan oedd pawb yn brysur yn clirio yn yr ysgolion!!

Erbyn hyn mae'r ferch hynaf yn edrych ar y rhaglenni i blant hyn pan mae'n rhydd i wneud hynny. Oherwydd ei bod yn mynychu gwersi nofio, piano pêl droed a'r holl glybiau eraill sydd yn mynd â'i bryd tydi hi ddim adref yn aml ar yr adegau y darlledir y rhaglenni. Teimlaf ei bod yn resyn mawr nad yw yn dod i adnabod a gwybod am y rhaglenni Cymraeg hyn sydd ar gael gan eu bod yn rhoi sylfaen o ddiwylliant fodern Cymraeg a Chymreig iddi hi a'i chenhedlaeth, a bydd eu dylanwad yn parhau pan fyddant wedi tyfu. Mae'n holl bwysig fod plant yn gweld fod y Gymraeg yn iaith fywiog, naturiol a hwyliog.

Buaswn wrth fy modd petai Mared a Gwenno a'u ffrindiau yn trafod eich rhaglenni chi hefo ei gilydd yn lle eu bod yn trafod y llu rhaglenni sydd ar gael i ddewis rhyngddynt ar yr holl sianeli i blant sydd ar deledu lloeren. Yn ein ty ni mae'r genod yn edrych ar y teledu am ychydig cyn mynd i'w gwelyau, a'r adeg hynny does dim dewis o raglenni iddynt ar S4C. Felly maent yn dod i adnabod cymeriadau Saesneg ac Americanaidd yn dda iawn, ond nid y rhai Cymraeg. Mwyaf yn y byd rwyf yn meddwl am hyn y mwyaf rwy'n methu deall pam nad yw S4C wedi cychwyn sianel i blant flynyddoedd yn ôl!

Gobeithiaf yn wir y bydd yr ymgyrch hon yn llwyddiannus. Credaf ei bod yn holl bwysig fod S4C yn symud ymlaen yn y ffordd yma a hynny ar fyrder, gan ei bod yn bwysig denu y gwylwyr ifanc i sicrhau dyfodol i'r sianel ac yn wir i'r iaith Gymraeg fodern, fyw.

Gobeithio fod fy mhregath am helpu'r achos!!!

C2 Ydw

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Elin Owen

C1 Ydw. Yn fy marn i, ar hyn o bryd mae darpariaeth S4/C ar gyfer plant yn annigonol. 'Rwyf yn fam i blentyn oedran meithrin. Mae fy mhlentyn wrth ei fodd yn gwylio rhaglenni sydd ar Planed Plant Bach ond gan mae dim ond un awr o hyd ydi'r slot yma (dwy awr yn ystod gwyliau'r ysgol), ar rai adegau eraill o'r dydd mae fy mhlentyn yn gwylio Cbeebies(BBC). Mae gan y sianel yma raglenni o safon uchel, ond gan fy mod yn dwyn fy mhlentyn i fyny yn Gymraeg iaith gyntaf, rwyf yn pryderu ei fod yn gwylio gormod o raglenni yn y Saesneg. Byddaf yn croesawu'n fawr sianel i blant yn yr iaith Gymraeg.

C2 Ddim yn siŵr

C3 Na

C4 Plant Meithrin - Byddai'n braf gweld bloc o gwmpas 6-7 y hwyr "Awr amser gwely". Fel arall mae 0600 - 1500 yn ddigonol.

C5 Rhaglenni o safon uchel, boed hynny yn rhaglenni gwreiddiol yn y Gymraeg neu raglenni Saesneg/Rhyngwladol wedi eu haddasu yn y Gymraeg. Mae'r sianel yn cynhyrchu rhaglenni gwreiddiol i blant o safon uchel ar hyn o bryd e.e. Caffi Twts, Sam Tan, Triongl, Pentre Bach ond gan fod rhaglenni a chymeriadau fel Bob y Bildar, Tomos y Tanc, Pingu a thebyg yn enw/frand sydd mor boblogaidd gyda phlant yn y DU, dwi'n croesawu unrhyw addasiad newydd Cymraeg o raglenni poblogaidd (e.e. Postman Pat, Lazytown) sy'n galluogi'n plant i wylio'r rhaglenni yma yn y Gymraeg.

C6 Yn ddelfrydol Opsiwn 3 fyswn yn ei ddewis, ond i fod yn realistig mae'n siŵr bod yn rhaid cyfaddawdu oherwydd yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd.

Nid wyf yn bersonol wedi gwylio S4/C2 ac felly teimlaf ni ellaf roi sylwadau ar gynnwys y gwasanaeth yma. Er mwyn cadw'r gwasanaeth y Cynulliad mae'n ddibynnol ar y canran sy'n gwylio'r trafodion ar hyn o bryd. Byddai gwasanaeth bylchog yn ddechrau ac yn wellhad ar y ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i blant.

C7 Na

·_·_·_·_·_·

Enw Andy Parker

C1 Ydw. Mae anghenion yr arddegau yn wahanol i rai'r plant eraill. Gallai rhaglenni sydd â phynciau penodol iddynt dargedu rhannau o gwricwlwm ysgolion sy ddim yn cael sylw ar hyn o bryd yn yr iaith Gymraeg.

C2 Nac ydw. Dydw i ddim yn siŵr a fyddai gwasanaeth o'r fath yn fenter fasnachol lwyddiannus. Y

tebyg yw taw gwasanaeth cyhoeddus fyddai gwasanaeth o'r fath.

C3 Na

C4 Gan taw'r bwriad yw gwneud S4C a rhaglenni Cymraeg yn gyffredinol yn ddewis naturiol i bobl ifainc, dylai'r oriau darlledu a'r cynnwys adlewyrchu oriau gwylio mwyaf poblogaidd y gynulleidfa honno.

C5 Dylen nhw fod yn addysgiadol ac yn adloniadol ac nid fel y brif sianel sy fel petai yn byw yn y 1950au gyda rhaglenni ffermio a pherfformiadau telyn. Dylen nhw hefyd osgoi mwydro am yr iaith Gymraeg, mae hynny'n diflasu plant yn fwy na dim, ond dylent ddangos yr iaith fel rhywbeth "cool".

C6 Opsiwn 2 - gwasanaeth llawn i blant yw'r dewis gorau yn amlwg. Er bod y Cynulliad yn aml yn ei ystyried ei hun yn bwysig iawn, mae'n amherthnasol yn aml.

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Nia Mererid Parry

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw E Press

C1 Ydw

C2 Dim yn gwybod

C3 Na

C4 Yn iawn

C5 Rhaglenni da

C6 Nac oes

C7 Dim sylw

·_·_·_·_·_·

Enw Phillip Pumford

C1 Ydw. Mae hyn yn syniad ardderchog i hybu'r iaith Gymraeg ymhlith pobl ifainc. Dwi wastad wedi synnu nad yw S4C yn darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr i ieuenctid.

C2 Ydw. Er i fi ddweud “ydw” dwi’n credu y dylai aros dan ofal S4C oherwydd gallai fod yn gostus.

C3 Gallaf. Po fwyaf o bobl y gellir eu cynnwys, y gorau, cyn belled â bod hyn ddim yn tynnu arian oddi wrth y prif fwriad.

C4 06:00am tan 08:45 ar gyfer oed 5 i 8; 9:30 tan 15:00 ar gyfer plant oed cyn ysgol; 15:00 tan 16:00 ar gyfer oed 5 i 8; 16:00 tan 19:00 ar gyfer oed 9 i 15

C5 Hybu iaith a diwylliant Cymru.

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Eirian Rees

C1 Ydw. Mae gwir angen sianel Gymraeg ar gyfer ein plant - yn enwedig y rhai lleiaf sy ar hyn o bryd yn gorfod gwylio CBeebies neu Nick Junior gan nad oes unrhyw beth ar eu cyfer heblaw am yr ychydig sydd ar gael amser cinio pob dydd.

Dw i eisiau i fy mhlentyn glywed mwy o'r iaith na'r hyn mae'n glywed wrtha i a'i athrawes Ysgol Feithrin.

C2 Ydw.

C3 Mentrau Iaith, Rhag

C4 Dw i'n credu dylai rhaglenni Cymraeg sy'n addas i blant meithrin cael eu darlledu o saith o'r gloch y bore tan bedwar o'r gloch y prynhawn. Yna am 4 o'r gloch y prynhawn dylid dechrau rhaglenni ar gyfer plant cynradd/uwchradd ac o saith o'r gloch ymlaen rhaglenni ar gyfer plant uwchradd ac o 9 o'r gloch ymlaen rhaglenni ar gyfer oedolion ifanc

C5 Rhaglenni byr, lliwgar, addysgiadol sy'n cadw diddordeb y plant

C6 Opsiwn 2 yn bendant

C7 Mae fy mhlentyn yn dair oed ar hyn o bryd. A fedrwch chi geisio gael y sianel yma'n gweithredu'n llawn erbyn Nadolig 2007? Mae angen sianel Cymraeg i blant nawr. Diolch

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Fenn Reynolds

C1 Nac ydw. Dydw i ddim yn credu y dylid darlledu pob rhaglen yn Gymraeg gan nad yw pawb yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Credaf y dylid dangos rhaglenni Saesneg ar rai amseroedd o’r dydd a Chymraeg ar adegau eraill.

C2 Wel, ydw a nac ydw. Dwi’n credu y dylai fod ’na sianel i blant, ond dylid ei darlledu drwy Brydain, a bod yn Gymraeg a Saesneg.

C3 Na

C4 Dwi’n credu y dylid darlledu S4C drwy Brydain

C5 Darlledu mewn Cymraeg a Saesneg

C6 Na

C7 Na

·_·_·_·_·_·

Enw Gethin Rhys

C1 Ydw

C2 Nac ydw

C3 Na

C4 Mae fy nwy ferch i (11 a 13 mlwydd oed) wedi hen beidio â gwylio rhaglenni plant S4C gan ddweud eu bod yn rhy blentynnaidd ac yn isel eu safon a'u hatyniad o'u cymharu â rhaglenni plant cyfatebol ar sianelau Saesneg. Nid wyf yn llwyr gytuno â'u dyfarniad ar y safon, ond ofer pob ymgais i ddwyn perswâd arnynt. Maent yn parhau i wylio Pobol y Cwm yn frwd.

Nid wyf yn llwyr gytuno â'r strategaeth a gynigir o ran y tri grp oedran:
1. Cytunaf mai ar S4C ei hun y dylid darlledu rhaglenni i blant meithrin
2. Cytunaf y byddai plant 5-10 yn dymuno gwylio sianel ddynodedig i blant fyddai'n ymddangos yn y ddewislen electronig o dan sianeli plant
3. Rwyf o'r farn fod plant 11+ yn dewis o blith sianeli oedolion yn bennaf (e.e. "Friends" ar E4, MTV, "Strictly Come Dancing" ar BBC1 "Dancing on Ice" ar ITV1, ayb) a'u bod yn gyndyn i gyfaddef eu bod yn gwylio sianel "blant". Felly mae yna ddadl dros gadw rhaglenni'r oedran hon hefyd ar S4C ei hun, ond wedi eu brandio'n glir (tebyg i C2 ar Radio Cymru). Yn wyneb y newidiadau demograffig y cyfeirir atynt yn yr adroddiad dichon y golyga hyn gythruddo rhai o'ch gwylwyr hyn drwy roi mwy o le i wylwyr 11-16 ar oriau brig gyda'r hwyr a disodli rhai rhaglenni presennol.

C5
1. Sianel blant ar gyfer y rhai 5-10/11 yn bennaf
2. Marchnata egniol ac effeithiol
3. Rhyngweithioldeb trwy'r botwm coch a'r wefan, yn enwedig gemau yn codi o'r rhaglenni (fel ar wefan CBBC) a chystadlaethau deniadol
4. Cartwnau!

C6 Noder fy sylwadau uchod parthed sianel ar gyfer plant 5-10/11. Cytunaf y golyga hyn gysondeb yn y ddarpariaeth o 1515-1830 yn ogystal ag yn y bore bach ac ar benwythnosau. Mae hyn yn amlwg yn gwrthdaro â darpariaeth bresennol S4C2.

OND fel gwyliwr cyson ar S4C2, ni fynnaf golli'r gwasanaeth hwnnw, ac yn wir mewn gwlad ddemocrataidd rhaid i ryw ddarparwr cyhoeddus ddangos gweithgareddau'r Senedd yn fyw. Credaf felly fod rhaid trafod â'r BBC ynghylch dyfodol y gwasanaeth hwn a sicrhau ei ddyfodol CYN gosod sianel i blant yn ei lle.

Un cyfaddawd posibl fyddai defnyddio S4C2 ar gyfer rhaglenni plant 5-10/11 yn y lle cyntaf, a recordio gweithgareddau'r Senedd pan fônt yn gwrthdaro a'u darlledu yn yr hwyr ar ôl i'r gwasanaeth plant ddod i ben - tebyg i'r hyn a wneir ar BBC Parliament ar hyn o bryd, ac a wneir gyda'r Pwyllgorau ar S4C nawr. Yn wir, fe all y byddai hyn yn fwy cyfleus i lawer o oedolion sydd am weld gweithgareddau'r Senedd hefyd. Gwell fyth pe gellid sicrhau darlledu byw o'r Senedd ar y we. Pe gwneid hyn, yna byddwn yn fodlon ar weld rhaglenni plant 5-11 yn cymryd y lle blaenaf ar S4C2 (o dan enw newydd si o fod).

Ni chredaf fod cael rhaglenni plant ar un sianel ar ddydd Mawrth, Mercher a Iau a sianel arall weddill yr amser yn sefyllfa gynaliadwy - yn wir, fe fyddai'n milwrio yn erbyn holl resymeg cael sianel ar wahân i blant yn y lle cyntaf. Nid yw chwaith yn gynaliadwy i feddwl peidio â darlledu ar y prif oriau i blant ar ddyddiau Mawrth, Mercher a Iau. Felly nid yw Opsiwn 1 yn dderbyniol o unrhyw safbwynt.

Byddwn, felly, am weld opsiwn gwahanol i 1 na 2, yn debycach i opsiwn 2 ond gan anelu'r sianel

newydd at blant 5-11 yn bennaf, a defnyddio S4C digidol ar gyfer rhaglenni plant meithrin a phlant hyn, a chadw peth o'r S4C2 presennol pan fo'r brif gynulleidfa yn yr ysgol.

C7 Rhaid sicrhau fod y sianel newydd yn ymddangos yn y lle cywir ar y ddewislen electronig - e.e. mae Virgin Media yn rhestru S4C2 o dan "Adloniant" yn hytrach nag o dan "Dogfen/Ffeithiol" ar hyn o bryd. Fe ymddengys nad yw Virgin yn barod i restru unrhyw sianel yn fwy nag unwaith, ac felly rhaid i'r sianel newydd ymddangos o dan y pennawd "Plant" os yw am lwyddo. Gall oedolion sydd am wylio'r Senedd ddod o hyd iddi yno yr un mor rhwydd ag o dan "Adloniant" ar hyn o bryd!

Fe lwyddodd y BBC i ddefnyddio dwy sianel ddarlledu ar gyfer pedair sianel (CBBC/BBC3 a CBeebies/BBC4). Mae hyn wedi rhoi dau le iddynt i bob sianel yn y dewislenni, ac efallai y gellid meddwl am drefniant tebyg - S4CPlant a S4CSenedd, yn defnyddio'r un sianel ddarlledu ond yn cael eu marchnata fel dwy sianel cwbl ar wahân.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Dana Richards

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Na

C4 Gyda 2 o blant oedran meithrin byddai'n braf gweld mwy o planed plant bach. Dwi'n teimlo bod digon o cbeebies ac maen nhw'n hoffi gwylio hwnnw yn ogystal ag S4C. Ond rwy'n teimlo nad yw awr y dydd yn ddigon. Dylai fod rhaglenni am ychydig oriau yn y bore cyn ysgol ac efallai ychydig oriau dyn diwedd y diwrnod ysgol am 3.30. Byddai'n ddelfrydol cael sianel i blant o 6 tan 7 pob dydd, fel bod y dewis yno pryd bynnag maen nhw am wylio.

C5 Mwy o'r un peth gyda planed plant

C6 Dim sylw

C7 Dim byd heblaw ei fod yn syniad da a bod ar blant ei angen.

· _ · _ · _ · _ · _ ·

Enw Ceri Richardson

C1 Ydw. Rydw i'n credu y byddai o fudd i gael rhaglenni Cymraeg wedi'u hanelu at bobl ifainc yn eu harddegau er mwyn cynnal eu diddordeb yn yr iaith.

C2 Ydw

C3 Ddim yn si□

C4 Dwi'n credu fod yr oriau darlledu a awgrymir yn ddigon eang i allu gwasanaethu'r holl grwpiau oedran a amlinellir gennych, o'r plant ieuengaf i blant hyn i'r arddegau.

C5 Delio gyda materion yn ymwneud â bywyd go iawn a chynnwys gwybodaeth o ddiddordeb i'r gwahanol grwpiau oedran. Peidio â bod yn nawddoglyd a dros ben llestri, ond pethau y gellir uniaethu â nhw.

C6 Dim sylw

C7 Fel rhiant i blentyn sydd mewn ysgol Gymraeg cefais fod rhaglenni planed plant a phlaned plant bach cyn hynny yn help mawr i fy merch. Er nad yw hi'n sylweddoli hynny mae'n dysgu'r iaith wrth wylio rhaglenni teledu. Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio rwyf wedi gweld ei medrau iaith yn

gwella , a'i dealltwriaeth o'r rhaglenni. Mae'r ystod eang o raglenni yn wych, ond byddai o fudd i gael dewis helaethach dros gyfnod hirach. Edrychaf ymlaen at y gwasanaeth newydd

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Medwyn Roberts

C1 Ydw

C2 Ydw

C3 Nac ydw

C4 Dim sylw

C5 Dim sylw

C6 Dim sylw

C7 Dim sylw

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Huw Roberts

C1 Ydw. Nid yw darpariaeth S4C ar gyfer oedolion ifanc yn ddigonol ar hyn o bryd.

C2 Ydw. Mae gan S4C ddyletswydd i ddarparu ar gyfer pawb yng Nghymru. Mae gan S4C ddigon o arian. Talwch, ac mi ddaw y cwmnïau masnachol!

C3 Nac ydw

C4 Heblaw am yr amlwg - oriau i gyd-fynd a bywyd y bobl ifanc - nac oes.

C5 Sicrhau safon uchel ieithyddol. Er bod darpariaeth dda gan BBC Radio Cymru ar gyfer ieuenctid, mae safon yr iaith yn aml yn siomedig. Mae'n bosib bod yn gyfoes ac yn safonol.

C6 Dim sylw

C7 Mae angen darparu deunydd o sylwedd. Nid yw cael Glyn ac Imogen yn trin a thrafod dillad yn ddigon. Mae gan bobl ifanc ddiddordeb byw yn y byd. Mae angen rhaglenni ar yr amgylchedd, gwleidyddiaeth, hanes ac yn y blaen. Dylid trafod crefydd - mae crefydd yn fyw, hyd yn oed os yw Duw yn farw; mae Irac yn profi hynny. Nid yw dynwared ysbwriel Eingl-Americanaidd yn ddigon. Dylid cynnig deunydd cyfoes Cymreig sy'n adlewyrchu ein diwylliant unigryw, ac sy'n herio ein pobl ifanc.

Diolch am ystyried sianel i blant; mi fydd yn gaffaeliad.

. _ . _ . _ . _ . _ .

Enw Susan Rogers

C1 Ydw. Mae'n rhaid i ni gadw ein hiaith, â'r ffordd ymlaen yw drwy ein plant. Mae'n bwysig bod ein plant yn gwylio teledu yn y Gymraeg oherwydd maent yn dysgu'r iaith yn well ac mae'n help iddynt gyfathrebu yn y Gymraeg yn well eu hunain.

C2 Nac ydw

C3 Nac ydw

C4 Yn ystod y tymor ysgol, byddai'n syniad i ddarlledu yn y bore tan tua 9.30, amser cinio 11.30 tan

1.30, ac ar ôl ysgol 3.00 tan 7.00. Yn ystod gwyliau ysgol byddai'n syniad darlledu drwy'r bore a 3.00 tan 7.00. Mae'n farn i yn seiliedig ar brofiad o fod adre llawn amser i fynd i weithio yn ystod tymor ysgol.

C5 Mae rhaglenni sydd gyda'ch ar hyn o bryd yn dda iawn, ond efallai fyddai'n syniad i chi ddarlledu tamaid fwy o rhaglenni i blant o dan 8, ond wrth dweud hynny mae'n bwysig i gael rhaglenni i ddisgyblion rhwng 8 ac 16 hefyd i gadw eu diddordeb hwy a hefyd iddynt gael defnyddio'r iaith a'u chlywed fwy ar y teledu nid dim ond yn yr ysgol.

C6 Nac oes.

C7 Roedd yn wych cael darllediad byw o Eisteddfod yr Urdd, Sir Gâr wythnos diwethaf. Roeddwn i yn gwylio gyda'm merch a oedd hefyd wedi mwynhau y darllediad yn fawr iawn. Byddai sianel deledu newydd i blant yn syniad ardderchog i'r plant gael gwylio mwy o bethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

. _ . _ . _ . _ . _ .